Panel Dinasyddion Ceredigion - Arolwg 11

Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am ysgolion yng Ngheredigion ac am ddarparu amrediad eang o wasanaethau hamdden a diwylliannol. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio tuag at sicrhau bod gwasanaethau amrywiol eraill yn cael eu darparu i blant a phobl ifanc yng Ngheredigion, yn ôl hawliau a gydnabyddir.

Byddem yn croesawu'ch adborth ar flaenoriaethau'r Cyngor o fewn y meysydd hyn:

Blaenoriaeth A. Gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion Ceredigion er mwyn gwella cyraeddiadau ar draws pob ystod oedran;

Blaenoriaeth B. Datblygu Arweinyddiaeth Ysgol ar bob lefel: Y bwriad yw datblygu arweinwyr cadarn yn ein hysgolion a fydd yn gallu sbarduno gwelliant addysgiadol. Mae ymchwil yn dangos bod arweiniad cadarn yn un o'r prif anghenion ar gyfer gwella perfformiad disgyblion mewn ysgolion;

Blaenoriaeth C. Aildrefnu Ysgolion a phatrymau dysgu er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd fwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd gennym. Y nod yw lleihau'r nifer o lefydd gwag yn ein dosbarthiadau ysgol. Bydd hyn yn rhyddhau cyllid a fydd yn cael ei fuddsoddi mewn gwella cyflwr cyfleusterau ysgolion;

Blaenoriaeth Ch. Gwella'r gefnogaeth sydd wedi'i thargedu tuag at unigolion sy'n agored i niwed, a lleihau tlodi plant ac anghydraddoldeb;

Blaenoriaeth D. Parhau i ddarparu cyfleoedd i blant, pobl ifainc ac oedolion ddatblygu eu hiechyd a'u lles unigol drwy amrywiaeth o wasanaethau chwaraeon, hamdden a diwylliannol.

C1 **Gosodwch y blaenoriaethau canlynol yn ôl eu pwysigrwydd. 1 = blaenoriaeth isel iawn, 5 = blaenoriaeth uchel iawn. Nid oes rhaid ichi roi sgôr gwahanol ar gyfer pob blaenoriaeth.**

	1 = isel iawn	2	3	4	5 = uchel iawn
Blaenoriaeth A. Gwella sgiliau rhifedd a llythrennedd	☐	☐	☐	☐	☐
Blaenoriaeth B. Datblygu arweinyddiaeth ysgol ar bob lefel	☐	☐	☐	☐	☐
Blaenoriaeth C. Aildrefnu patrymau dysgu ac ysgolion	☐	☐	☐	☐	☐
Blaenoriaeth Ch. Gwella cefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n agored i niwed	☐	☐	☐	☐	☐
Blaenoriaeth D. Parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer plant, pobl ifainc ac oedolion	☐	☐	☐	☐	☐

C2 **Oes unrhyw faes arall yr ydych yn teimlo y dylai'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol ei gynnwys fel blaenoriaeth?**

Llyfrgell Ceredigion

Mae'r llyfrgell gyhoeddus yn brif gyfleuster cymunedol a'i phwrpas yw galluogi ac annog unigolion cael mynediad diduedd i lyfrau, gwybodaeth, a gweithiau o ddychymyg creadigol, a fydd yn:
- Eu hannog i gymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau diwylliannol, democrataidd ac economaidd;
- Eu galluogi i gymryd rhan mewn datblygiad addysgiadol drwy raglenni ffurfiol neu anffurfiol;
- Eu cynorthwyo i ddefnyddio'u hamser hamdden mewn modd cadarnhaol;
- Hyrwyddo darllen a llythrennedd fel sgiliau sylfaenol sydd yn hanfodol ar gyfer cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn; a'u
- Hannog i ddefnyddio gwybodaeth a'u gwneud yn ymwybodol o'i gwerth.

Oherwydd natur leol a chymunedol y gwasanaeth, mae angen rhoi pwyslais arbennig ar anghenion a dyheadau'r gymuned leol ac ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer grwpiau arbennig o fewn y gymuned honno, ac ar un pryd, cynnig mynediad i adnoddau ehangach drwy rwydweithiau llyfrgell rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae datblygu rhwydwaith o ganghennau a llyfrgelloedd symudol yn rhan hanfodol o strwythur Llyfrgell Ceredigion sy'n galluogi'r Awdurdod i gyflawni'r gorchwyl hwn. Mae gennym saith cangen - Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Cei Newydd a Thregaron, a chwe llyfrgell symudol yn gwasanaethu gweddill y sir.

C3 **A ydych yn aelod o Lyfrgell Ceredigion?**

Ydw..... ☐ Nac ydw..... ☐

C4 **A ydych yn defnyddio Llyfrgell Ceredigion?**

Ydw (Ewch i 4a)..... ☐ Nac ydw (Ewch i C6) ..... ☐

C4a **Os ydych, pa ganghennau ydych chi wedi ymweld â nhw? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Aberaeron..... ☐ Aberteifi ..... ☐ Llandysul ..... ☐ Tregaron..... ☐
Aberystwyth..... ☐ Llambed ..... ☐ Cei Newydd..... ☐ Fan symudol..... ☐

C5 **Pa mor aml ydych chi'n ymweld â changen llyfrgell / fan symudol?**

	Bron bob dydd	Tua unwaith neu ddwywaith yr wythnos	Tua unwaith y mis	Tua bob chwe wythnos	Byth
Aberaeron.....	☐	☐	☐	☐	☐
Aberystwyth	☐	☐	☐	☐	☐
Aberteifi	☐	☐	☐	☐	☐
Llambed.....	☐	☐	☐	☐	☐
Llandysul.....	☐	☐	☐	☐	☐
Cei Newydd	☐	☐	☐	☐	☐
Tregaron.....	☐	☐	☐	☐	☐
Fan symudol.....	☐	☐	☐	☐	☐

C6 **Os nad ydych chi'n defnyddio'r llyfrgell o gwbl, neu'n ei defnyddio'n anaml, beth sy'n eich rhwystro rhag ei defnyddio?**

C7 **Beth fyddai'n eich annog i ddefnyddio'r llyfrgell yn amlach?**

C8 **Pa mor bwysig neu ddibwys yw'r ddarpariaeth ganlynol yn y llyfrgell:**

	Yn bwysig iawn	Yn weddol bwysig	Nid y naill na'r llall	Ddim yn arbennig o bwysig	Ddim yn bwysig o gwbl
Llyfrau	☐	☐	☐	☐	☐
E-lyfrau	☐	☐	☐	☐	☐
Adnoddau Cymraeg	☐	☐	☐	☐	☐
DVDs	☐	☐	☐	☐	☐
Gwasanaethau ar-lein a Safle We	☐	☐	☐	☐	☐
Catalog ar-lein (adnewyddu a chwilio ar-lein)	☐	☐	☐	☐	☐
Cyfrifiaduron	☐	☐	☐	☐	☐
Wi-Fi a'r Rhyngrwyd	☐	☐	☐	☐	☐
Adnoddau hanes teulu / hanes lleol	☐	☐	☐	☐	☐
Digwyddiadau lleol	☐	☐	☐	☐	☐
Cymorth gan staff	☐	☐	☐	☐	☐

C9 **Ydych chi'n credu bod grwpiau ac unigolion o fewn y gymuned yn elwa drwy ddefnyddio'r llyfrgell?**

	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
Grwpiau	☐	☐	☐
Unigolion	☐	☐	☐

C9a **Os ydych, ym mha ffordd ydych chi'n credu y maent yn elwa?**

C10 **Beth arall y gall Gwasanaeth y Llyfrgell ei gynnig i gynorthwyo unigolion a grwpiau yn eich ardal?**

C11 **Mae'r llyfrgell yn cydlynu gweithgareddau i hyrwyddo darllen a darparu deunydd darllen arall am ddim.**
Pa mor bwysig neu ddibwys yw cyfraniad addysgol Gwasanaeth y Llyfrgell i hybu darllen a llythrennedd yn eich barn chi?

Yn bwysig iawn ☐
Yn weddol bwysig ☐
Nid y naill na'r llall ☐
Ddim yn arbennig o bwysig ☐
Ddim yn bwysig o gwbl ☐

Er mwyn mynd i'r afael â materion lleol, mae'r llyfrgell yn darparu nifer o wasanaethau amrywiol ar gyfer pobl leol er mwyn cynorthwyo gyda(g):

- Anfantais economaidd a chymdeithasol: Mae'r llyfrgell yn cynnig mynediad i amrediad o ffynonellau gwybodaeth ac yn medru cynnig sesiynau er mwyn hybu sgiliau llythrennedd a Gwybodaeth Technoleg.

- Diffyg swyddi: Mae'r llyfrgell yn cynnig mynediad i'r we i chwilio am swyddi, cyfrifiaduron i greu CVs a gwella sgiliau ac amryfal adnoddau ar gyfer datblygiad personol i wella'r rhagolygon ar gyfer pobl ddi-waith.

- Trosedd a diogelwch cymunedol: Mae'r llyfrgell yn cryfhau cymuned a magu balchder a chydlyniad cymunedol wrth ddarparu gwybodaeth, gweithgareddau a chasgliadau o bwys yn lleol ac at ddiddordeb lleol.

C12 Ydych chi'n credu bod rôl y llyfrgell yn bwysig o ran mynd i'r afael â'r materion lleol canlynol?

	Pwysig iawn	Eithaf bwysig	Nid y naill na'r llall	Ddim yn bwysig iawn	Ddim yn bwysig o gwbl
Anfantais economaidd a chymdeithasol	☐	☐	☐	☐	☐
Diffyg swyddi	☐	☐	☐	☐	☐
Trosedd a diogelwch cymunedol	☐	☐	☐	☐	☐

C13 Beth mwy allai'r llyfrgell ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn?

C14 Nodwch unrhyw sylwadau / awgrymiadau pellach am y gwasanaeth llyfrgell yn eich ardal leol chi os gwelwch yn dda.

Heddlu Dyfed-Powys

Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (PCSOs)

Ers 2006, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyflwyno Timoedd Plismona Bro yn raddol ar draws yr ardal Heddlu. Mae Timoedd Plismona Bro wedi rhoi cyfle i'r cyhoedd weld a dylanwadu ar y ffordd mae'r heddlu'n mynd i'r afael â phroblemau yn eu cymdogaeth drwy ddefnyddio Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (PCSOs).

Pwrpas PCSO yw ffurfio rhan o Dîm Plismona Bro a bod yn weladwy, hygyrch ac adnabyddus yn y gymuned leol. Byddant hefyd yn gyfarwydd â'u hardal leol. Eu rôl yw cynnal patrolau amlwg ar droed mewn lifrau, ymateb i alwadau a cheisiadau am gymorth, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau unrhyw risg i ddiogelwch y cyhoedd. Byddant hefyd yn ymateb yn gyflym er mwyn cynorthwyo swyddogion heddlu i reoli digwyddiadau drwy ddarparu cefnogaeth briodol.

Ein nod ar gyfer y dyfodol yw cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu a'u rôl ac, os oes angen, cynyddu eu presenoldeb yn eich cymuned.

C15 I ba raddau rydych chi'n meddwl bod eich cymuned wedi newid ers i Blismona Bro gael ei gyflwyno yn eich ardal chi?

Wedi gwella'n fawr ☐	Dim newid ☐	Llawer iawn gwaeth ☐
Wedi gwella rhywfaint ☐	Ychydig yn waeth ☐	Ddim yn gwybod ☐

C16 **Mae Swyddogion Cefnogi Cymunedol yn defnyddio nifer o ddulliau i roi gwybod i bobl pwy ydyn nhw a sut i gysylltu â nhw. Pa rai o'r dulliau canlynol sy'n gyfarwydd i chi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)**

Gwefan yr heddlu ☐
Cylchlythyrau ☐
Cyfarfodydd PACT / cymorthfeydd yr heddlu ☐
Patrolau ar droed ☐
Posteri / taflenni ☐
Hysbysfyrddau ☐
Ddim yn gwybod am unrhyw ddulliau / gwybodaeth ☐
Arall (Nodwch isod)

C17 **Pa mor aml ydych chi'n gweld PCSOs yn eich cymuned chi?**

Bron bob dydd ☐ Tua bob chwe wythnos ☐
Tua unwaith neu ddwywaith yr wythnos ☐ Byth (Ewch i C19) ☐
Tua unwaith y mis ☐

C18 **Sut ydych chi'n gweld PCSO yn patrolio'ch ardal chi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Patrolio ar droed ☐ Gyda swyddog Tîm Plismona Bro neu PCSO arall ☐
Mewn cerbyd patrôl ☐

C19 **Ydych chi'n gwybod beth yw'r blaenoriaethau plismona bro ar gyfer eich ardal leol chi?**

Ydw ☐ Ansicr ynghylch ble i ddod o hyd iddynt ☐
Nac ydw ☐ Dim diddordeb ☐

C20 **Ydych chi'n credu y byddai'ch cymuned yn elwa petai'ch PCSO yn cael pwêrau ychwangeol i… (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Symud pobl ymlaen os ydynt yn creu problemau gwrthgymdeithasol ☐
Ymdrin â phroblemau gwrthgymdeithasol ar ôl 10 o'r gloch yr hwyr ☐
Ymdrin â phroblemau baw cŵn ☐
Ymdrin â phroblemau parcio a rhwystro ☐
Arall (Nodwch isod)

Awdurdod yr Heddlu: Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Awdurdod yr Heddlu yw'r corff sy'n gyfrifol am graffu ar berfformiad yr Heddlu a dal y Prif Gwnstabl i gyfrif ar ran ei gymunedau. Ar 15 Tachwedd 2012, disodlir Awdurdodau Heddlu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a etholir gan aelodau'r cyhoedd drwy broses etholiadol ddemocrataidd. Bydd eu rôl, ynghyd â Phanel yr Heddlu a Throseddu, yn cynnwys nifer o swyddogaethau cyfredol yr Awdurdod, ond bydd hefyd yn lledu'n llawer ehangach gan arwain at fwy o gysylltiad a dylanwad o ran materion diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol.

C21 **Oeddech chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'u hethol yn uniongyrchol yn disodli Awdurdodau Heddlu ym mis Tachwedd 2012?**

Oeddwn ☐ Nac oeddwn ☐

C21a **A fyddech gystal â rhoi eich barn ar y newidiadau hyn isod os gwelwch chi'n dda.**

C22 **Ydych chi'n credu y byddwch yn pleidleisio yn yr etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a gynhelir ar 15 Tachwedd 2012?**

Byddwn..... ☐ Na fyddwn..... ☐

C23 **Yn eich barn chi, beth fyddai'r dull fwyaf effeithiol o ran codi ymwybyddiaeth ein cymunedau o'r newidiadau hyn? (Dewiswch DDAU yn unig)**

Papur newydd lleol..... ☐
Cyfarfodydd cymunedol ..... ☐
Cyfweliadau / hysbysebion teledu neu radio..... ☐
Gwefan ..... ☐
Cylchlythyrau (drwy'r post)..... ☐
Cylchlythyrau (ar-lein) ..... ☐
Cylchlythyrau Paneli Dinasyddion..... ☐
Cyfryngau cymdeithasol (e.e.Facebook, Twitter)..... ☐
Podlediadau..... ☐

Arall (Nodwch isod)

B.A.N.G.

Gofynnwyd y cwestiynau hyn i chi'n gyntaf nôl ym mis Ionawr 2011 (Arolwg 8) yn dilyn Ymgyrch B.A.N.G. 2010, ac fe'u gofynnir eto yn yr arolwg hwn er mwyn gweld a yw'ch ymwybyddiaeth o'r fenter wedi cynyddu, a oeddech chi'n credu ei bod wedi effeithio ar lefelau gwrthgymdeithasol yn eich ardal, ac i ddarganfod pa welliannau y gellir eu gwneud yn eich barn chi.

Roedd B.A.N.G (Bihafiwch Adeg Noson Galan Gaeaf) 2011 yn fenter ar y cyd rhwng Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru. Yn lleol, gwnaeth yr heddlu yng Ngheredigion gyd-weithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o dan ymbarél y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y sir yn ystod Calan Gaeaf a noson Tân Gwyllt. Fe'i cynhaliwyd rhwng 22 Hydref a 6 Tachwedd 2011.

Gwelwyd Timoedd Plismona Bro a staff Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal patrolau ar y cyd, ymweld ag ysgolion, a rhoi cyngor i bobl ifanc ynghylch cadw'n ddiogel wrth iddynt fynd allan i ofyn 'cast neu geiniog?', yn ogystal â chyngor ar bwysigrwydd mynd i noson tân gwyllt wedi ei threfnu yn hytrach na chynnal un eu hunain. Sefydlwyd y fenter gan y credir iddi fod yn un cadarnhaol ble y gallai swyddogion Heddlu Dyfed-Powys a staff y Gwasanaeth Tân gynnal gweithgareddau er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc yng Ngheredigion ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

C24 **Cyn derbyn yr holiadur hwn, oeddech chi'n ymwybodol o B.A.N.G 2011?**

Oeddwn (Ewch i C25)..... ☐ Nac oeddwn (Ewch i C26) ☐

C25 **Os oeddech, sut wnaethoch chi glywed amdani?**

Patrolau ar y cyd - Heddlu Dyfed-Powys a'r Gwasanaeth Tân ac Achub..... ☐
Ymweliadau ysgol..... ☐
Posteri..... ☐
Y rhyngrwyd ..... ☐
Darllediadau teledu..... ☐
Y wasg leol..... ☐

Arall (Nodwch os gwelwch yn dda)

C26 **A ydych chi wedi sylwi ar unrhyw wahaniaeth yn lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dilyn y fenter? Ydy lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi:**

Gostwng llawer ..... ☐ Dim newid..... ☐ Cynyddu llawer ..... ☐

Gostwng ychydig ..... ☐ Cynyddu ychydig..... ☐ Ddim yn gwybod ..... ☐

C27 **A oes gennych unrhyw awgrymiadau am sut y gallem wella'r fenter y flwyddyn nesaf?**

C28 **Pa feysydd rydych chi'n credu y dylem ni fod yn canolbwyntio ein hymdrechion y flwyddyn nesaf?**

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Gwirfoddoli Er Mwyn Iechyd

Bu Gwirfoddoli Er Mwyn Iechyd yn darparu gwasanaeth gwirfoddoli o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ar draws gwasanaethau iechyd yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro ers mis Hydref 2009.

C29 **Ydych chi wedi clywed am y prosiect Gwirfoddoli Er Mwyn Iechyd?**

Ydw (Ewch i C29a) ..... ☐ Nac ydw (Ewch i C30) ..... ☐

C29a **Os ydych, ble wnaethoch chi glywed amdano? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Papur newydd lleol ..... ☐ Yn yr ysbyty ..... ☐

Radio lleol..... ☐ Gyda'ch meddyg teulu..... ☐

Cylchgrawn cymunedol..... ☐ Drwy gylchlythyr Panel Dinasyddion..... ☐

Papurau Bro ..... ☐

Arall (Nodwch isod os gwelwch chi'n dda)

C30 **Ydych chi wedi gweld ein gwirfoddolwyr (sy'n gwisgo crysau polo melyn) mewn neu o gwmpas ysbytai?**

Ydw (Ewch i C30a) ..... ☐ Nac ydw (Ewch i C31) ..... ☐

C30a **Os ydych, ble welsoch chi'r gwirfoddolwyr? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Ysbyty Cyffredinol Glangwili (YCG) ..... ☐ Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg (YCLl) ..... ☐

Ysbyty Cyffredinol Bronglais (YCB) ..... ☐ Ysbyty Cymunedol (Nodwch isod)..... ☐

Ysbyty'r Tywysog Phillip (YTP) ..... ☐

Lleoliad arall (Nodwch isod)

C31 **Oeddech chi'n ymwybodol o'r hyn yr oedd y gwirfoddolwyr yn ei wneud neu'r gweithgareddau yr oeddynt yn eu cyflawni?**

Oeddwn (Ewch i C31a)..... ☐ Nac oeddwn (Ewch i C32) .... ☐

C31a **Os oeddech, pa rai o'r canlynol oeddech chi'n ymwybodol ohonynt? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

	Glangwili	Bronglais	Tywysog Phillip	Llwynhelyg	Ysbyty Cy munedol
Cyfeillachwr / Cyfaill Ward.....	☐	☐	☐	☐	☐
Gwirfoddolwr Cyfarfod a Chyfarch	☐	☐	☐	☐	☐
Gwirfoddolwr Llyfrgell Deithiol	☐	☐	☐	☐	☐
Hebryngwr Cleifion Allanol	☐	☐	☐	☐	☐
Gwirfoddolwr Cymorth Damweiniau ac Achosion Brys	☐	☐	☐	☐	☐
Gwirfoddolwr Cymorth Fferyllfa	☐	☐	☐	☐	☐
Gwirfoddolwr Uned Cemotherapi Dydd	☐	☐	☐	☐	☐
Gwirfoddolwr Garddio	☐	☐	☐	☐	☐

Arall (Nodwch isod)

C32 **A oes gennych unrhyw awgrymiadau am rolau pellach y gallai gwirfoddolwyr gwasanaeth iechyd eu cyflawni?**

C33 **Ydych chi'n credu bod Gwirfoddoli Er Mwyn lechyd o fantais i unrhyw un o'r canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Ymwelwyr ..... ☐ Cleifion..... ☐

Staff ..... ☐ Nid wyf yn credu ei fod yn fanteisiol ..... ☐

Gwirfoddolwyr..... ☐

C33a **Esboniwch eich ymateb ar gyfer C33 os gwelwch chi'n dda.**

C34 **Ydych chi'n credu y gall gwirfoddolwyr chwarae rhan bwysig o ran gwella profiadau cleifion o ofal iechyd mewn ysbytai?**

Ydw..... ☐ Nac ydw..... ☐ Ddim yn gwybod ..... ☐

C35 **Ydych chi'n credu bod y gymuned yn elwa o'r prosiect?**

Ydw (Ewch i C35a)..... ☐ Nac ydw (Ewch i C36) ..... ☐ Ddim yn gwybod (Ewch i C36)..... ☐

C35a **Os ydych, sut mae'r gymuned yn elwa yn eich barn chi?**

C36 **Nodwch unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r prosiect Gwirfoddoli Er Mwyn Iechyd os gwelwch yn dda.**

C37 **A fyddai gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r Prosiect Gwirfoddoli Er Mwyn Iechyd (drwy fod yn rhan o Weithgor, cyfrannu at grŵp ffocws, neu drwy wirfoddoli mewn sefyllfa iechyd)?**

Byddai (Ewch i C37a) ..... ☐ Na fyddai (Ewch i C38) ..... ☐

C37a **Os oes gennych ddiddordeb, nodwch y dull cyswllt sydd orau gennych A'CH manylion cyswllt isod h.y. rhif ffôn neu gyfeiriad; post neu e-bost.**

Cludiant i Ysbytai

Pob blwyddyn, mae miloedd o gleifion yn teithio i'r ysbyty a nôl ar gyfer apwyntiadau. Llynedd, gwnaed dros 70,000 o siwrneiau gan gleifion Hywel Dda mewn cerbydau difrys drwy Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Darperir cludiant difrys i gleifion sydd ag angen meddygol am gludiant er mwyn cael mynediad i ysbyty.

C38 **Yn eich barn chi, sut y dylid darparu cludiant difrys i gleifion? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Cludiant cyhoeddus ..... ☐
Cludiant gwirfoddol ..... ☐
Cludiant Gofal Cymdeithasol Awdurdod Lleol..... ☐
Gwasanaeth Ambiwlans ..... ☐
Sector Preifat ..... ☐
Does dim gwahaniaeth pwy sy'n darparu'r cludiant cyn belled â'i fod yn cael ei ddarparu..... ☐
Ni ddylid ei ddarparu ..... ☐
Arall (nodwch os gwelwch chi'n dda)

C39 **Yn eich barn chi, pwy ddylai dderbyn cludiant am ddim i'r ysbyty? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Cleifion sydd ag angen meddygol am driniaeth arbenigol ..... ☐
Cleifion sy'n derbyn triniaethau penodol (megis dialysis, cemotherapi ayyb.) ..... ☐
Cleifion sy'n derbyn budd-daliadau penodol ..... ☐
Cleifion sy'n methu gwneud eu ffordd eu hunain i'r ysbyty ..... ☐
Pob claf sydd ag apwyntiad ysbyty ..... ☐
Dylai neb gael cludiant am ddim ..... ☐
Arall (nodwch os gwelwch chi'n dda)

C40 **Yn eich barn chi, pwy ddylai archebu'r cludiant difrys?**

Y claf..... ☐ Staff yr ysbyty ..... ☐ Meddyg teulu'r claf ..... ☐

Arall (nodwch os gwelwch chi'n dda)

C41 **Yn eich barn chi, beth fyddai'r ffordd orau o ddarparu gwybodaeth ynghylch cludiant am ddim i'r ysbyty ar gyfer y claf / eu teulu? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Gwybodaeth gyda llythyrau apwyntiad..... ☐

Taflenni / arddangos posteri mewn meddygfeydd..... ☐

Taflenni / arddangos posteri mewn ysbytai..... ☐

Gwybodaeth mewn papurau newydd lleol ..... ☐

Gwybodaeth ar orsafoedd radio lleol ..... ☐

Gwybodaeth ar y rhyngrwyd..... ☐

Arall (nodwch os gwelwch chi'n dda)

C42 **Nodwch unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â chludiant i'r ysbyty os gwelwch yn dda.**

Diolch yn fawr am gwblhau eich arolwg.

Dychwelwch ef yn yr amlen barod cyn gynted â phosib.